# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 27 Mai 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, David Smith, Aelod Arweiniol dros Y Parth Cyhoeddus, Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg

**Sylwedyddion:** Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Martyn Holland, Gwyneth Kensler, Jason McLellan, Paul Penlington, ac Arwel Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Asedau (PMc); Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG), Pnnaeth Cynllunio Busines a Pherfformiad (AL), Cydlynydd Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol (DM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS

Dim materion brys wedi'u codi.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2014.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2014 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 POLISI ENWI STRYDOEDD A RHIFO

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno'r Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo newydd arfaethedig i'w gymeradwyo.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y polisi presennol 1997 wedi cael ei ddiweddaru a'i wella er mwyn darparu mwy o eglurder a set fwy cadarn o weithdrefnau ar gyfer ymdrin ag enwi strydoedd a rhifo. O ystyried y pryderon a godwyd yn y Fforwm Dwyieithrwydd, roedd y polisi yn cynnwys darpariaeth i ail-enwi strydoedd gydag enw un iaith i un dwyieithog, ac y byddai'r holl enwau strydoedd newydd naill ai yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Roedd gweithdrefn wedi eu llunio ar gyfer y diben hwnnw a oedd yn cynnwys ymgynghoriad ehangach, ac roedd y goblygiadau o ran cost wedi cael eu nodi yn yr adroddiad.

Croesawodd y Cabinet y polisi o ran darparu canllawiau a gweithdrefnau clir ac roedd yn falch o nodi cyfranogiad cynghorau tref / cymuned a thrigolion lleol o fewn y broses. Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau'r aelodau ynghylch gweithrediad y polisi, gan gynnwys ymarferoldeb a chost, a manylodd ar y materion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r swyddogaeth. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol -

- Amlygodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio newid i'r polisi ym mharagraff 4.3, Adran C i egluro na allai'r Cyngor wrthod cais i ychwanegu enw eiddo at eiddo presennol wedi'i rifo ond byddai'n cyhoeddi canllawiau ar briodoldeb yr enw i osgoi gwrthdaro a pheri tramgwydd
- Roedd yr aelodau'n awyddus i ddatblygwyr ymgynghori â chymunedau a chynghorau tref/ cymuned ar ddewisiadau enwau strydoedd yn gynnar yn y broses a chadarnhaodd swyddogion y gellid rhoi canllawiau mewn perthynas â hynny i ddatblygwyr yn ystod y cam cyflwyno cais cynllunio neu pan roddwyd caniatâd cynllunio. Cytunwyd hefyd i ddosbarthu'r polisi i gynghorau tref / cymuned i sicrhau bod awgrymiadau enwau strydoedd yn addas ac yn briodol
- Er y derbyniwyd y rhesymau y tu ôl i'r cynnig i wahardd enwi strydoedd ar ôl unigolion penodol, teimlai'r Cabinet y byddai'n fuddiol gwneud hynny lle'r oedd cysylltiad hanesyddol neu ddiwylliannol clir rhwng yr unigolyn a'r ardal dan sylw
- nodwyd bod y canllawiau yn cynghori yn erbyn y defnydd o atalnodi mewn enwau strydoedd ond teimlai'r Cabinet na ddylent fod yn argymell yr ymarfer hwnnw a chytunwyd cael gwared ar y cyfeiriad hwn yn y polisi
- yn absenoldeb unrhyw gyfiawnhad, bod yn "Court" a "View" yn ôl-ddodiaid anaddas, cytunwyd eu bod yn cael eu cynnwys ar y rhestr o ôl-ddodiaid derbyniol.

Eglurodd y Cynghorydd Arwel Roberts pam ei fod wedi codi'r mater o enwi strydoedd yn y Fforwm Dwyieithrwydd a diolchodd i'r swyddogion a'r Cynghorydd Huw Jones am eu gwaith wrth lunio'r polisi a oedd yn cefnogi'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*

*(a)* *yn cytuno ar y Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo newydd arfaethedig fel y'i nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn amodol ar y diwygiadau canlynol -*

- *Bod paragraff 4.3, Adran C yn cael ei ail-eirio er mwyn egluro na allai'r Cyngor wrthod cais i ychwanegu enw i eiddo â dim ond rhif arno ar hyn o*

*bryd ond y byddai'n cyhoeddi canllawiau ynghylch priodoldeb enw'r eiddo er mwyn osgoi gwrthdaro ac yn achosi tramgwydd*

- *dileu paragraff 1.9, Adran B yn ymwneud â'r defnydd o atalnodi*
- *cynnwys "Court" a "View" ar y rhestr o ôl-ddodiaid derbyniol*
- *bod paragraff 1.6, Adran B yn cael ei ddiwygio gyda'r geiriau ychwanegol "oni bai bod achos clir yn cael ei wneud ynghylch cysylltiad hanesyddol neu ddiwylliannol yr unigolyn i'r tir neu'r gymdogaeth", a*

*(b)* *nodi bod y swyddogaeth enwi strydoedd a rhifo yn cael ei reoli gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio.*

**6 DATBLYGU CANOLFAN NOVA PRESTATYN**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones yr adroddiad yn amlinellu'r cynigion ar gyfer cynllun gwerth £3.66m i ddatblygu Canolfan Nova Prestatyn a gofynnodd am gymeradwyo costau o £108,864 i ddatblygu'r prosiect i'r cam dylunio manwl.

Atgoffodd y Cynghorydd Jones y Cabinet am y cefndir a arweiniodd at y cynnig cyfredol gan dynnu sylw at yr astudiaeth dichonoldeb a wnaed gan bartneriaid datblygu'r Cyngor, Alliance Leisure Services a'r gymysgedd o gyfleusterau sy'n cael eu hystyried ar gyfer y prosiect. Roedd y Grŵp Buddsoddi Strategol (SIG) wedi ystyried yr astudiaeth dichonoldeb ac achos busnes ac wedi argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo cyllid i ddatblygu'r cam nesaf. Roedd Cyngor Tref Prestatyn, y Bwrdd Arfordirol a Grŵp Aelodau Ardal Prestatyn hefyd yn hapus i gefnogi symud ymlaen i'r cam nesaf. Y gobaith oedd y gellid cyflwyno dyluniadau manwl ffurfiol ym mis Medi.

Adroddodd yr aelodau SIG y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill a Barbara Smith am y dadansoddiad trylwyr o'r achos busnes a'r gefnogaeth unfrydol i'r cynllun. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid ar gyfer y cynllun roedd yn debygol y byddai'r gost o ddatblygu'r cynlluniau manwl yn cael ei dynnu o dderbyniadau cyfalaf.

Roedd y Cabinet yn falch o gefnogi'r cynlluniau i fuddsoddi yn y cyfleuster a datblygu'r prosiect i'r cam nesaf ond gofynnwyd am sicrwydd dros wytnwch y safle i lifogydd a bod digon o adnoddau staffio i gefnogi prosiect mor uchelgeisiol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Hugh Irving bwysigrwydd y Nova a'r effaith gadarnhaol y byddai'r datblygiad yn ei gael ar yr economi leol a lles y gymuned. Gofynnodd i'r dylunwyr ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r golygfeydd glan y môr yn y datblygiad. Dywedodd y Swyddogion y byddai mesurau i wella gwytnwch y cyfleuster i lifogydd yn cael eu hystyried yn ystod y cam dylunio manwl a byddai'r penseiri yn gweithio i sicrhau bod cymysgedd y cyfleuster yn gwneud y defnydd gorau o'r safle er budd y trigolion ac ymwelwyr. Rhoddwyd sicrwydd hefyd bod y cynllun yn un y gellid ei gyflawni ac y byddai adnoddau ar gael gan dimau o fewn yr awdurdod ac y gellid dwyn swyddogion ychwanegol i mewn hefyd pe bai angen. Byddai Alliance Leisure Services yn darparu rheolaeth adeiladu a rhoi eu hadnoddau eu hunain ar y safle i gyflwyno'r prosiect.

Gobeithiodd y Cynghorydd Jason McLellan am ddatblygiad mwy uchelgeisiol i roi hwb i dwristiaeth ar gyfer yr ardal a gofynnodd am i fyrddau cysyniad gael eu codi yn manylu ar y cynlluniau datblygu. Amlygodd y Swyddogion ardaloedd o fewn yr

achos busnes o ran dalgylchoedd a segmentau marchnad a chadarnhawyd y byddai byrddau cysyniad yn cael eu codi unwaith y bydd y cynlluniau wedi eu cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r £108,864 er mwyn symud y cynllun ymlaen i'r cam dylunio manwl.*

## 7 PROSIECTAU TRAWSNEWID CAFFAEL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr achos busnes terfynol ar gyfer uno Unedau Caffael Corfforaethol Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn ogystal â phrosiect Caffael y Tair Sir ar gyfer cymeradwyo.

Roedd yr angen am newid yn y ffordd yr oedd caffael a chomisiynu yn cael ei wneud wedi ei amlygu yn yr adroddiad ynghyd â chefndir i ddatblygiad yr achosion busnes. Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar yr ystyriaethau a manteision pob prosiect ynghyd â gweithredu'r trefniadau cydweithredol. Cyfeiriwyd yn arbennig at gyflwyno egwyddorion rheoli categori; yr angen am brynu i mewn gan feysydd gwasanaeth unigol, a'r tensiwn rhwng sicrhau gwerth gorau a chefnogi busnesau lleol.

Trafodwyd y materion canlynol:-

- Tynnwyd sylw at y broses gaffael ar gyfer goleuadau stryd fel enghraifft o arfer gorau a rheoli categori llwyddiannus i gael ei ailadrodd mewn meysydd caffael eraill a darparwyd sicrwydd na fyddai’r model hwn yn cael ei effeithio gan y newidiadau
- codwyd y risg o wasanaethau unigol yn methu â chymryd rhan yn y broses a chadarnhaodd y swyddogion bod angen newid diwylliant ac eglurodd sut y byddai'r prosiect yn cael ei chyflwyno ar draws yr awdurdod dros gyfnod o ddwy flynedd
- roedd elfen allweddol yn y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r economi leol ac er bod angen cydbwyso gwerth gorau ac effeithlonrwydd gyda chefnogi busnesau, gellid cymryd mesurau i'w gwneud yn haws i fusnesau lleol gystadlu yn y farchnad.
- roedd gwariant lleol a manteision cymunedol yn ystyriaeth bwysig ac roedd yr Arweinydd yn gobeithio gellid ymestyn yr elfen hon trwy'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol i ddarparu dealltwriaeth a phroses gliriach ar gyfer ymgysylltu â'r sector preifat ar faterion caffael
- cydnabuwyd cymhlethdodau’r trefniadau cydweithredol ynghyd ag effaith bosibl ad-drefnu llywodraeth leol, a'r gobaith oedd y gallai Prosiect Caffael y Tair Sir ehangu i fod yn brosiect rhanbarthol ar draws y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru
- ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ynghylch goblygiadau cost sy'n gysylltiedig ag uno Sir Ddinbych/ Sir y Fflint, gan gynnwys costau cyflogau a staffio'r uned ar y cyd ac adroddwyd bod bid £1m i'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol i weithredu'r newidiadau wedi bod yn llwyddiannus.

Croesawodd y Cabinet y prosiectau cydweithredol fel modd o wella'r ffordd yr oedd caffael yn cael ei wneud wrth sicrhau mwy o werth am arian gyda llai o gost.

Teimlai'r Cynghorydd Eryl Williams y byddai'n fuddiol ar gyfer y prosiectau i gael eu monitro mewn tua deuddeg mis i asesu a sicrhau eu heffeithiolrwydd.

***PENDERFYNWYD:-***

(a) *Bod y Cabinet yn cymeradwyo achos busnes terfynol ar gyfer uno timau caffael Sir y Fflint a Sir Ddinbych i fod yn Uned Caffael Corfforaethol sengl a gynhelir gan Sir Ddinbych;*

(b) *Bod datblygu a chytuno ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Uned ar y cyd yn cael ei ddirprwyo i swyddogion priodol (Pennaeth Cyllid ac Asedau, Pennaeth Rheolwr Caffael Strategol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid ac Asedau;*

(c) *Bod y Cabinet yn cymeradwyo achos busnes terfynol y Prosiect Caffael Tair Sir, a*

(d) *bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio perthnasol neu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar weithrediad y trefniadau newydd ar ôl y deuddeg mis cyntaf o weithredu.*

**8 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn y strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni. Darparodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â -

- Cyllideb refeniw net y cyngor - £188m ar gyfer 2014/15 (£192m yn 2013/14).
- cyllidebau ac arbedion gwasanaeth unigol y cytunwyd arnynt ar gyfer 2014/15
- Er nad oedd unrhyw amrywiannau i adrodd arnynt, ar hyn o bryd rhagwelwyd y byddai Gwasanaeth yr Amgylchedd a Phriffyrdd yn wynebu llawer o bwysau a risgiau yn 2014/15 a fyddai’n gofyn am gamau rheoli i aros o fewn y gyllideb.
- diweddariad cyffredinol ar gyllidebau Corfforaethol: y Cynllun Corfforaethol; Y Cynllun Cyfalaf a’r Cyfrif Refeniw Tai.

Teimlai'r Cynghorydd Eryl Williams bod cyfeiriadau at y pwysau ar y gyllideb cynnal a chadw yn y gaeaf yn gamarweiniol ar ôl gaeaf mor ysgafn. Cytunodd y Prif Weithredwr bod y sylwadau wedi bod yn ddiangen ac er bod gwasanaethau’n cael eu hannog i dynnu sylw at bwysau ar y gyllideb yn gynnar, cwestiynodd a ddylid eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Amlygodd y Cynghorydd Bobby Feeley broblemau gyda defnyddio’r polisi cludiant ysgol mewn ardaloedd penodol a nodwyd bod y mater wedi cael ei gymryd gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogi Addysg ac y byddai hefyd yn cael ei ystyried gan y pwyllgor archwilio priodol. Cadarnhawyd y byddai'r gyllideb cludiant ysgol yn cael ei hystyried yn ystod Gweithdai Cyllideb yr Aelodau.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried. Ni adroddwyd am unrhyw newidiadau.

***PENDERFYNWYD*** *bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn cael ei nodi.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 10 CAFFAEL EIDDO A THIR YN DEFNYDDIO GORCHYMYN PRYNU GORFODOL, 21-24 RHODFA'R GORLLEWIN A THIR YN STRYD Y DŴR, Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth i ddefnyddio pwerau Prynu Gorfodol ar gyfer caffael tir yn 21-24 Rhodfa'r Gorllewin a Stryd y Dŵr, Y Rhyl.

Dywedwyd wrth y Cabinet bod yr adroddiad yn atodol at adroddiadau blaenorol a ystyriwyd gan y Cabinet ar 24 Ebrill 2012 ac 19 Mehefin, 2012 i gaffael meddiant o 25/26 Rhodfa'r Gorllewin a thir ategol, Y Rhyl. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i gaffael llain ychwanegol o dir digofrestredig ategol a nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo defnyddio pwerau Prynu Gorfodol i gaffael y budd rhydd-ddaliol y tir fel y nodwyd ar y Cynllun yn Atodiad A i'r adroddiad fel Plot 5 yn unol ag Adran 226 (1)(b) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.